

# Gwneud i TG Weithio – a ydych chi'n ddigidol llythrennog?

Mae Llythrennedd Digidol yn ymwneud â'r gallu i ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ganfod, gwerthuso, creu a chyfathrebu gwybodaeth, ac sy'n gofyn am sgiliau gwybodol a thechnolegol.

Mewn tirwedd gynyddol ddigidol mae'n bwysig fod eich lleoliad yn cadw'n gyfamserol o ran pob peth Digidol. A'r Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth, a rhieni, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru ac arianwyr yn cyfathrebu fwyfwy yn ddigidol, mae'n hollbwysig bod eich lleoliad nid yn unig â'r gallu i ymateb, ond yn gwneud yn siŵr fod y data sydd yn eich meddiant yn ddiogel.

Dylai lleoliadau nodi technolegau digidol priodol i atgyfnerthu rheolaeth effeithiol o'u gwasanaeth a dadansoddi eu dealltwriaeth bresennol o dechnolegau digidol a'u hyder wrth ddefnyddio'r rhai sydd ar gael i atgyfnerthu arferion rheoli eich busnes.

Rhai o'r pethau y dylech eu hystyried wrth ddefnyddio Technoleg Ddigidol:

Mae'n bwysig sicrhau bod gan eich lleoliad gyfeiriad e-bost proffesiynol, ac enw defnyddiwr addas sy'n rhoi darlun clir o'r hyn yw eich busnes. Mae'n bwysig nad ydych yn defnyddio cyfeiriad ebost personol i ohebu ar faterion busnes a bod y cyfrif ebost a ddefnyddiwch yn ddiogel.

**Sut i greu cyfeiriad ebost:**
Os nad oes gan eich lleoliad gyfeiriad ebost, dilynwch y camau syml isod i'w greu mewn ychydig funudau. Yn ôl astudiaeth a wnaed yn 2013, ymhlith y darparwyr gwasanaeth ebost a ddefnyddir fwyaf y mae Gmail, Yahoo! a Microsoft Outlook. Bydd gan y mwyafrif o'r darparwyr gwasanaeth poblogaidd hyn wefannau y gallwch eu llywio'n hawdd.

**I ddechrau creu cyfrif:**
- Cliciwch y botwm Cofrestru. Bydd hyn yn eich cymryd at ffurflen a fydd yn gofyn am eich manylion personol a'r enw defnyddiwr o'ch dewis. **Mae'n bwysig dewis enw defnyddiwr addas ar gyfer defnydd proffesiynol.**
- Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar eich enw defnyddiwch, rhaid i chi greu cyfrinair. Bydd cyfrinair da yn un y gallwch chi ei gofio, ond na all eraill ei ddyfalu beth ydyw.
- Pan fyddwch wedi llenwi'r holl fanylion, darllenwch a derbyniwch y Telerau ac Amodau a chliciwch i gofrestru.
- Llongyfarchiadau! Mae eich cyfeiriad ebost wedi ei greu.

**Sut i gadw'ch gwybodaeth ddigidol yn ddiogel:**

**Diogeledd Ryngrwydol:**
Daw twyllwyr **Rhyngrwydol** o bob math o gefndiroedd a phob grŵp oed, ac am ryw reswm maent yn teimlo'r **angen** i bostio meddalwedd maleisus ar y **rhyngrwyd** er mwyn gwneud difrod difrifol. Felly daw pobl yn ddioddefwyr, gan nad oedd ganddynt y **ddiogeledd ryngrwydol** gywir yn ei lle.

Gyda meddalwedd **ddiogeledd** fand-eang gallwch ddiogelu eich cyfrifiadur pan fyddwch yn pori ar y we neu'n lawrlwytho. I osgoi firysau, yn ogystal â bygythiadau ar-lein - yn cynnwys hacwyr, ysbïwedd, spam a lladrad hunaniaeth - mae'n **hanfodol** fod gennych becyn **diogeledd** wedi ei fewnosod.

**Defnyddiwch gyfrineiriau cryf.**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio gwahanol gyfrineiriau ar wahanol safleoedd. Gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfrinair a ddefnyddiwch yn un cyffredin neu hawdd i'w ddyfalu. Defnyddiwch www.howsecureismypassword.net, y mae'n ddiogel ac nid yw'n storio unrhyw ddata a fewnbynnir; bydd hyn yn dangos i chi pa mor ddiogel y gallwch ei wneud.

Mae gwefannau, fwy a mwy, yn gofyn i ni ddefnyddio cyfrineiriau mwy cymhleth (ac

anoddach i'w cofio), rhai sydd yn aml yn cynnwys cymysgedd o briflythrennau a llythrennau bach, rhifau a nodau arbennig (<>?£$^&). Mae www.passwordgenerator.net yn rhoi'r cyfle i chi gynhyrchu cyfrineiriau ap a'u profi ar y safle diogeledd. Bydd gan gyfrinair cryf o leiaf 13 nod, yn cynnwys cymysgedd hap o lythrennau, rhifau a nodau arbennig.

Gallwch hefyd wirio'ch cyfrinair i weld a yw wedi ei beryglu ar y safle hwn; www.haveibeenpwned.com

Mae'n bwysig bod â pholisi TG cadarn a gweithdrefn ar gyfer eich lleoliad, gan wneud yn sicr fod eich staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau; dyma'r pethau y dylech eu hystyried:

- Gwiriwch e-byst nad oeddech yn eu disgwyl cyn agor atodion neu glicio ar ddolenni ynddynt.
- Rhowch gyfrinair neu god yn eu lle yn achos POB ffôn symudol, gliniadur, cyfrifiaduron a llechenni.
- Storiwch ddyfeisiau segur yn ddiogel.
- Allgofnodwch o'ch cyfrifiadur ar ddiwedd y dydd.
- Clowch eich cyfrifiadur cyn ei adael heb oruchwyliaeth.
- Rhowch y swyddogaeth 'cloi' ar waith ar eich dyfeisiau symudol gwaith.
- Cyn defnyddio gyriannau USB, gwnewch yn siŵr eu bod yn ddiogel.
- Gwnewch yn siŵr fod eich cyfrifiadur yn derbyn diweddariadau a chlytiau diogelu.
- Cadwch gopïau wrthgefn o'r data a storir ar eich dyfeisiau yn rheolaidd.
- Dilynwch 'weithdrefn rheoli digwyddiadau' yn achos dyfeisiau a gollir/a gaiff eu dwyn.
- Os nad yw eich cyfrifiadur yn perfformio yn ôl ei arfer, riportiwch hyn.
- Cydymffurfiwch â'r deddfau diogeledd a phreifatrwydd, hawlfraint a thrwyddedau, cytundebau a chontractau peidio-â-datgelu a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd (GDPR)
- Gwaredwch yn ddiogel eich holl ddyfeisiau storio sy'n cynnwys data â chyfyngiad iddynt neu ddata sensitif.
- Riportiwch unrhyw beth y tybiwch ei fod yn amheus.
- Cadwch ar eich gwyliadwriaeth a gofynnwch i'ch rheolwr am gyngor os oes unrhyw beth yn aneglur i chi!

**Y Cyfryngau Cymdeithasol**

Wedi gweld pa wasanaethau digidol y mae eich lleoliad yn eu defnyddio, dylech hefyd ganolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol yr ydych yn eu defnyddio, ac ystyried y manteision, sef y gallwch eu defnyddio i farchnata eich lleoliad drwy:

- Gael mynediad uniongyrchol i gwsmeriaid a deialog gyda hwy.
- Creu ymwybyddiaeth drwy hyrwyddo, sydd fel arfer yn rhad ac am ddim
- Rhoi delwedd broffesiynol i'ch gwasanaeth.

Dylech fodd bynnag, wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ystyried cyfrifoldebau'r staff a'r lleoliad o ran y canlynol:

- Diogelu cyfrineiriau
- Rheoli gosodiadau / hoff ddewisiadau – diogelu'r tudalennau
- Rheoli'r cynnwys – pwy a all uwchlwytho? Pwy a all bostio?
- Deall goblygiadau cyfreithiol pob gwasanaeth ar-lein (a'r Rheoliad GDPR)
- Amddiffyn hunaniaeth pobl – i rai sy'n rheoli'r gwasanaethau ar-lein
- SPAM, firysau a dwyn hunaniaeth.

**Bancio Ar-lein**

Budd arall Llythrennedd Digidol yw Bancio Ar-lein, sy'n galluogi talu'n electronig, gan leihau'r arian parod sy'n cael ei drin gan staff; y mae hefyd yn haws ei archwilio.

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â Chymunedau Digidol am gefnogaeth www.digitalcommunities.gov.wales



Mae 'Cwlwm' yn uno pum sefydliad blaenllaw gofal plant Cymru i ddarparu gwasanaeth integredig dwyieithog fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru.



www.cwlwm.org.uk